Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o newidiadau sylweddol

## Cynllun Taliadau 2017/18

Mae'r datganiad hwn wedi'i gwblhau yn unol â gofynion gwybodaeth Rheolau'r cynllun taliadau a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2016.

1

## Cynnydd sylweddol mewn biliau

**a) Cadarnhad o p'un a yw'r ymgymerwr yn disgwyl unrhyw gynnydd mewn biliau o fwy na 5% o'r flwyddyn flaenorol (ar gyfer math o gwsmer penodol gan dybio lefel gyson o ddefnydd) ac, os disgwylir cynnydd o'r fath:**

- **faint o gynnydd a ddisgwylir;**
- **pa fathau o gwsmeriaid y mae'n debygol o effeithio arnynt;**
- **y strategaethau ymdrin a fabwysiadwyd gan y cwmni neu pam nad oedd y cwmni o'r farn bod angen strategaethau o'r fath.**

Mae'r newid yn y biliau terfynol sy'n codi o Gynllun Taliadau 2017/18, gan dybio lefel gyson o ddefnydd, wedi'i adolygu gan y Bwrdd. Nid yw Dŵr Cymru yn disgwyl i unrhyw filiau gynyddu'n fwy na 5%.

2

## Newidiadau yn y polisi codi taliadau

**(b) Manylion unrhyw newidiadau sylweddol yn y polisi codi taliadau gan y cwmni o'r flwyddyn flaenorol.**

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r newidiadau canlynol i daliadau ar gyfer 2017/18:

**Tariffau Fforddiadwyedd**

Mae'r Cwmni yn adolygu nifer y bobl sydd ar y tariffau fforddiadwyedd y mae'n eu cynnig yn rheolaidd. Yn sgil ymgysylltu â chwsmeriaid a grwpiau cynrychioli cwsmeriaid, rydym wedi penderfynu symleiddio'r tariffau rydym yn eu cynnig:

Mae tariff "HelpU" wedi cael ei leihau i gyfres band unigol o £190.

Mae tariff "WaterSure Cymru" wedi cael ei leihau i £308 a chyflwynwyd tâl mesuredig ar sail asesiad (AMC) "WaterSure Cymru" ar gyfer cwsmeriaid anfesuredig Cymorth Dŵr Cymru.

**Gostyngiad defnyddiwr mawr**

Rydym yn ymestyn lefel y gostyngiad a gynigir i'r sawl sy'n gollwng yr elifion masnach a charffosiaeth mwyaf, h.y. y rheini sy'n gollwng >100Ml y flwyddyn, er mwyn adlewyrchu cost y gwaith dyrannu a wnaed.

3

## Strategaeth ymdrin ar gyfer cwsmeriaid Cymorth Dŵr Cymru

Nid oes angen strategaeth ymdrin ar gyfer y rhan fwyaf o gwsmeriaid Cymorth Dŵr Cymru yng Nghynllun Taliadau 2016/17 mwyach yn sgil cyflwyno tariff WaterSure Cymru is a ddisgrifiwyd yn Adran 2. Felly mae'r cynllun pontio yn cael ei dynnu'n ôl a rhoddir cwsmeriaid ar y tariff WaterSure Cymru priodol. Bydd nifer fach o gwsmeriaid carffosiaeth yn unig Cymorth Dŵr Cymru yn talu tariff pontio hyd at 31 Mawrth 2020 er mwyn sicrhau nad ydynt yn gweld unrhyw gynnydd sylweddol yn eu bil o ganlyniad i'r newid yn y polisi codi taliadau.